



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cynllun Strategol 2020-2030

1AF O EBRILL 2022 – DIWEDDARIAD BLWYDDYN TRI

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

CODI YMWHYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG

Cynnwys

Rhagair 3

Ein Themâu Strategol 4

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 5

 Eich Cadw'n Ddiogel 6

 Ymateb i'ch Argyfwng 9

 Gweithio â Phartneriaid 12

 Defnyddio Technoleg yn Dda 16

 Ymgysylltu a Chyfathrebu 18

 Gwerthfawrogi ein Pobl 22

 Diogelu ein Hamgylchedd 26

 Parhau i Weithio'n Effeithiol 28

Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus 32

Amdanom Ni 33

Dangosyddion Perfformiad Strategol 35

Ein Cyllideb 2022-2023 36

Costau Gweithwyr 37

Pam Rydym yn Cynllunio 38

Sut Rydym yn Cynllunio 40

Ein Cynlluniau a'n Strategaethau Eraill 41

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 42

Lleihau Carbon 44

Yr Iaith Gymraeg a Lleisia dy Farn 46



Rhagair



Huw Jakeway QFSM
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



Cyngorydd Tudor Davies MBE
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Croeso i ddiweddariad cynnydd blynyddol blwyddyn tri o'n Cynllun Strategol 2020-2030.

Yn y diweddariad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r cynllun yn nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth o wneud De Cymru'n fwy diogel, drwy leihau risg, a thrwy gyflawni yn erbyn ein 'Themâu Strategol' a'n Hamcanion. Ein nod yw amddiffyn a gwasanaethu ein cymunedau ar draws 10 Awdurdod Unedol mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen eraill a phartneriaid mewn sectorau eraill.

Yn ogystal â manylu ar ein cynnydd yn erbyn ein wyth Thema Strategol a'n hamcanion gwreiddiol, rydym wedi ychwanegu dau amcan: Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth a lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir i warchod ein hamgylchedd. Bydd yr amcanion newydd hyn yn cefnogi ac yn canolbwyntio ymhellach

ar weithgareddau sy'n ymwneud â'n pobl, cydraddoldeb a chynlluniau lleihau carbon.

Er mwyn sicrhau bod cynnydd yn erbyn ein holl amcanion yn parhau ar y trywydd cywir, mae gwaith y Gwasanaeth yn parhau i gael ei graffu a'i adolygu gan ein Hawdurdod Tân ac Achub.

Drwy gydol pandemig Covid-19, rydym wedi parhau i ymateb i anghenion ein cymunedau, cynorthwyo ein partneriaid yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod heriol a dyrys yn ogystal â datblygu ffyrdd newydd o weithio hefyd. Bydd llawer o'r ffyrdd newydd o weithio yn parhau ar ôl i'r cyfyngiadau llacio, a byddwn yn parhau i arloesi.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid am eu cyfraniad a'u cefnogaeth - edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi yn ystod 2022-2023.

Gobeithiwn byddwch chi'n canfod ein cynllun i fod yn wybodus ac rydym yn croesawu unrhyw adborth – [gweler tudalen 46 am sut i gysylltu â ni](#).



Ein Themâu Strategol

Mae'r tabl isod yn nodi ein wyth Thema Strategol sy'n sylfaen i'n Cynllun Strategol deng mlynedd 2020-2030. Seilir ein hamcanion ar y themâu hyn ac maent yn strwythuro ein hadroddiadau wrth i ni symud ymlaen ar hyd oes y cynllun.

Thema Strategol	Yr hyn a wnawn	Thema Strategol	Yr hyn a wnawn
Eich Cadw'n Ddiogel 	Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein ffonio	Ymgysylltu a Chyfathrebu 	Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol
Ymateb i'ch Argyfwng 	Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch	Gwerthfawrogi ein Pobl 	Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth
Diogelu ein Hamgylchedd 	Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Defnyddio Technoleg yn Dda 	Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi
Gweithio â Phartneriaid 	Gweithio gyda'r BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion	Parhau i Weithio'n Effeithlon 	Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (DLI CD) yn nodi y dylai "Pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau'r caiff anghenion cyfredol eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy".

Saith Nod DLI CD yw:



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru â
diwylliant
bywiog lle
mae'r
Gymraeg yn
ffynnu



Cymru
lewyrchus



Cymru
iachach



Cymru
sy'n fwy
cyfartal



Cymru sy'n
gyfrifol ar lefel
fyd-eang



Rydym wedi ystyried y nodau hyn yn ein cynllun ac wedi adnabod sut mae pob un o'n themâu strategol yn cyfrannu at eu cyflawni.

Mae DLI CD hefyd yn adnabod y pum ffordd ganlynol o weithio y mae'n rhaid i ni eu hystyried a gweithredu yn unol â hwy wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.


- Cydbwysu anghenion byrdymor ag anghenion **hirdymor**
- Rhoi adnoddau i **atal** problemau
- Defnyddio dull **cyfannol**, wrth bwysoli anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cydweithredu** ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion llesiant
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal



Hirdymor



Atal



Cyfannu



Cydweithredu



Cynnwys

Eich Cadw'n Ddiogel

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnherth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn darparu ataliad ac amddiffyniad rhag argyfyngau er mwyn cadw'n cymunedau'n ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ein gweithgareddau ataliol wedi bod yn hynod ddylanwadol o ran lleihau nifer yr achosion brys yn ystod y blynyddoedd diwethaf - tuedd rydym yn awyddus i'w chynnal a'i gwella. Un o'r ysgogiadau allweddol ar gyfer ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth a gawn gan, ac a rannwn gyda, sefydliadau eraill, sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystadegol.



Canolbwyntio
ar waith atal
er mwyn
lleihau'r
angen i chi
ein ffonio

Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- Ostwng effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Ostwng nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFF)
- Leihau nifer y tanau bwriadol
- Wella diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- Wella diogelwch tân mewn adeiladau o fewn ein cymunedau

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Mae bron i hanner y digwyddiadau rydym yn eu mynychu o ganlyniad i systemau canfod tân awtomatig a larymau tân yn achosi galwadau ffug, a elwir hefyd yn Arwyddion Tân Diangen (ATD). I fynd i'r afael â'r mater hwn, rydym wedi sefydlu gweithgor a fframwaith ATD a gyflwynwyd i bob gorsaf tân ac achub. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn ymgysylltu â lleoliadau a fynychwyd sawl gwaith





Canolbwyntio
ar waith atal
er mwyn
lleihau'r
angen i chi
ein ffonio

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Fe wnaethom barhau i adolygu ansawdd ein cofnodion data digwyddiadau ynghyd â chefnogi gorsafoedd gyda sesiynau hyfforddi rhithwir ac wyneb yn wyneb ill dau
- Gan weithio gyda Gan Bwyll mewn ardaloedd treialu, rydym wedi darparu ymyrraeth addysgol fel dewis amgen i gosbau penodol camerâu cyflymder. Mae gyrwyr sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n goryrru yn cael eu stopio ac mae ganddyn nhw'r opsiwn i fynychu sesiwn addysgu, gyda'r nod o gychwyn newid ymddygiad ac mae hyn wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn
- Fe wnaethom aildddechrau darparu ein cyrsiau Diogelwch Ffyrdd (Opsiyau - addysgu pobl am beryglon peidio â gwisgo gwregysau diogelwch; Domino – codi ymwybyddiaeth o'r #5Angheuol - Alcohol / Cyffuriau, Cyflymdra, Diofalwch, defnyddio Gwregysau Diogelwch a Ffonau Symudol; a Megadrive - Hyfforddiant i ddarpar yrwyr a anelwyd at bobl o 16 i 18 oed) ar draws ein cymunedau lleol
- Gyda'nartneriaid, fe wnaethom gyflawni mentrau megis Ymgrych Dawns Glaw (tasglu aml-asiantaeth Cymru gyfan) a Bryniau Iach (partneriaeth yng Nghwm Rhondda i gefnogi bywyd gwyllt lleol a lleihau tanau gwyllt) gyda'r nod o leihau'r dinistr amgylcheddol heb ei reoli a'r bygythiad posib i fywydau ac eiddo sy'n deillio o danau glaswellt a gynheuwyd yn fwriadol
- Fe wnaethom ailsefydlu'r grŵp achub llifogydd ac achub o ddŵr Cymru gyfan yn ogystal â datblygu pecyn cymorth fydd yn cael ei brofi cyn ei gyflwyno i orsafoedd tân ac achub. Mae'r pecyn cymorth yn rhestru asesiad risg o'r cwrs dŵr penodol, yr Offer Achub Cyhoeddus sydd ar gael, a chyfeirnodau Pa Dri Gair/What Three Words a mannau mynediad
- Fe wnaethom sefydlu grŵp i archwilio sut rydym yn addysgu plant AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) a phlant sy'n cael eu haddysgu gartref ynghylch peryglon dŵr gyda phartneriaid eraill yn genedlaethol





Canolbwyntio
ar waith atal
er mwyn
lleihau'r
angen i chi
ein ffonio

- Daethom yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio yn Ionawr 2022, a byddwn yn gweithio ar sail Cymru gyfan i sicrhau cysondeb
- Fe wnaethom gefnogi ymgyrch Hafanau Diogel ym mhob un o'n gorsafoedd tân ac achub, lle gall unrhyw un sydd mewn perygl uniongyrchol fynd i'r orsaf agosaf am help

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Defnyddio gwybodaeth i adnabod unigolion a grwpiau sy'n agored i niwed i flaenoriaethu'r modd y darperir ein gwasanaethau, a gweithio ar sail Cymru gyfan i gymhwyso sgôr risg ein Gwiriadau Diogelwch Cartref
- Ail-lansio ymgyrch Gwerthusiad Dysgu Ol-Dân (LEAF), er mwyn deall profiad tanau damweiniol mewn cartrefi yn well a chefnogi'r rhai sydd wedi'u profi
- Parhau i weithio â phartneriaid i gyflwyno addysg diogelwch ar y ffyrdd hanfodol mewn perthynas ag ymgyrch newydd Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymdra o 30 mya i 20 mya mewn ardaloedd penodol
- Eithafu cyfleoedd i gwblhau ymweliadau diogelwch yn y cartref i'r bobl sy'n agored i niwed o fewn ein cymunedau wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau a achoswyd gan Covid-19
- Gweithredu rhaglenni ymarfer hyfforddi sy'n cyd-fynd â'r risgiau o fewn ardal pob gorsaf a chynlluniau hyfforddi'r Adran Cyd-reoli Tân (CRT)



Ymateb i'ch Argyfwng

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru gydnerth



Cymru iachach

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn casglu gwybodaeth allweddol gan y galwr ac yn danfon yr offer a'r bobl briodol yn unol ag anghenion y digwyddiad. Byddwn yn cefnogi'r galwr yn ystod ei argyfwng ac yn darparu cefnogaeth barhaus i'r criwiau sy'n mynychu gydol y digwyddiad, i sicrhau canlyniad diogel.



Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch

Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch
- Wneud popeth y gallwn i sicrhau bydd ein criwiau System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, ein staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol yn ein cymunedau

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Hyfforddi ein recriwtiaid newydd yn yr Ystafell Cyd-reoli Tân (CRT) gan ganiatáu i ni gynyddu ein lefelau staffio. Mae CRT yn parhau i ddefnyddio system sy'n darparu rhif ffôn a lleoliad y galwr
- Cwblhau ein hasesiadau Lefel Rheoli Digwyddiad a chydlynu seminarau gweithredol ar-lein i ymdrin â phynciau amrywiol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o beiriannau tân arbennig
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi ein recriwtio Ar Alwad lle'r oedd cyfyngiadau Covid-19 yn cyfyngu ar ein gweithgaredd wyneb yn wyneb, gan arwain at 59 o recriwtiaid Ar Alwad newydd





Sicrhau ein
bod ni'n
ymateb yn
gyflym ac
yn effeithiol
pan fydd
ein hangen
arnoch

- Cynnal dau ymarfer hyfforddi graddfa fawr: Efelychodd Ymarfer Ifor wrthdrawiad cledrau rheilffordd a thraffig ffordd, ac roedd Tŵr Trethu Heriol yn defnyddio adeilad tŵr uchel gwag. Mynychodd dros 10 injan dân bob un o'r ymarferion hyn, ynghyd â cherbydau arbenigol, gwasanaethau brys eraill ac ystod o'n partneriaid
- Casglwyd yr holl ôl-drafodaethau a gynhyrchwyd o ganlyniad i efelychiadau a gweithrediadau er mwyn dysgu a gwella

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Adnabod lleoliadau realistig ar draws ardal y Gwasanaeth i gyflwyno hyfforddiant sy'n cyd-fynd â risgiau allweddol a meysydd datblygu gweithredol
- Archwilio cyfleoedd i wella'r broses recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad
- Datblygu System Rheoli Dysgu newydd ar gyfer pob sgil meddal a hyfforddiant arbenigol
- Adolygu hydwythdedd mewn timau ar draws y Gwasanaeth i sicrhau bydd gweithgareddau craidd yn cael eu cefnogi'n gynaliadwy mewn cyfnodau heriol
- Adnewyddu tri cherbyd tendr achub yn ein fflyd gyda cherbydau newydd a'u huwchraddio i allu achub o ddŵr Math C





Gweithio â Phartneriaid

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang



Cymru
lewyrchus

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn adeiladu ar hanes sefydledig o weithio gyda'n partneriaid i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau mewn modd cost effeithiol. Mae gweithio gydag eraill mewn dull cydgysylltiedig yn hanfodol i gefnogi cyflawni canlyniadau gwell i'n cymunedau lleol, osgoi dyblygu ymdrech a gwario arian cyhoeddus yn ddoeth. Fel partner statudol ar bob un o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ein hardal gwasanaethu, rydym yn cefnogi darparu Cynlluniau Llesiant unigol ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n gwella bywydau'r bobl yn ein cymunedau yn yr hirdymor. Byddwn yn rhannu data gyda'n partneriaid BGC i leihau digwyddiadau, cadw ein cymunedau'n ddiogel ac iach, a gwneud newidiadau angenrheidiol i'n partneriaethau wrth i anghenion newydd ein cymunedau ddod i'r amlwg.



Gweithio gyda'r
BGC o fewn
De Cymru a
phartneriaid
eraill i
ddarparu
gwasanaeth
tân ac achub
sy'n cwrdd â'ch
anghenion

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid wrth:

- Weithio gyda BGC i gefnogi ein cymunedau
- Weithio â'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Fe wnaeth ein Rheolwyr Grŵp fynychu ac ymgysylltu â'u BGC neu is-grwpiau perthnasol i sicrhau ein bod yn cynnig cymorth lle bynnag roedd ei angen
- Parhawyd i adeiladu ar ein dealltwriaeth o danau sbwriel, gan fod y rhain yn gyfrifol am tua 45% o'r holl danau a fynychwyd. Rydym yn arwain y Gweithgor Sbwriel sy'n bartneriaeth aml-asiantaeth, ac yn rhannu gwybodaeth am dipio anghyfreithlon drwy ddefnyddio'r ap Fly Mapper
- Darparwyd yn lleol ar Ymgyrch Dawns Glaw, tasglu aml-asiantaeth Cymru gyfan, i leihau nifer y tanau glaswellt sy'n cael eu cynnau'n fwriadol sy'n achosi dinistr amgylcheddol a all, o bosib, fygwth bywydau ac eiddo



Gweithio gyda'r
BGC o fewn
De Cymru a
phartneriaid
eraill i
ddarparu
gwasanaeth
tân ac achub
sy'n cwrdd â'ch
anghenion

- Rydym yn gyfranogydd allweddol i Brosiect Bryniau Iach, gan weithio â sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Y nod yw rheoli ein llethrau yn well ar gyfer bywyd gwylt, ac wrth wneud hynny, cefnogi cymunedau lleol y Rhondda'n well
- Gweithiwyd â Cheidwaid Parciau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gorsafoedd Tân ac Achub New Inn, Glyn Ebwy ac Aberbargod i ddatblygu a phrofi ein pecyn cymorth ar gyfer Diogelwch Dŵr
- Rydym yn parhau i weithio gyda throseddwyd a'r rhai sydd ar fin troseddu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a cynnwys tanau bwriadol
- Datblygwyd pecyn hyfforddiant ymwybyddiaeth tân i holl weithwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC)
- Crëwyd proses atgyfeirio newydd ar gyfer YGAC i gyfeirio pobl at gyngor diogelwch yn y cartref
- Cyfrannwyd at weithgorau strategol a gweithredol Cymru gyfan ar ddementia, a pharhawyd i ddatblygu'r Gwasanaeth yn sefydliad sy'n gyfeillgar tuag at bobl sydd â Dementia
- Darparwyd hyfforddiant dementia ar lefel uwch i'n hymarferwyr diogelwch yn y cartref ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ac YGAC
- Ystyriwyd effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ym mhob un o'n gweithgareddau. Gweithiodd ein tîm Caffael law yn llaw â GTACGC i ymgorffori cymalau Gwerth Cymdeithasol o fewn ein proses dendro
- Bu ein tîm Recriwtio yn gweithio gyda gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru ar ymarferion datblygu recriwtio ac asesu ar y cyd. Mae'r





Gweithio gyda'r BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion

tîm hefyd wedi cefnogi prosiect hwb recriwtio Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i ddatblygu canllawiau ac adnoddau arfer gorau. Mae'r Fframwaith Mudo diffoddwyr tân Ar Alwad i Llawn Amser wedi'i integreiddio ymhellach o fewn y Gwasanaeth

- Parhaodd ein Canolfan Cyd-reoli Tân i gymryd rhan mewn ymarferion rheolaidd gyda Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed Powys
- Fe wnaethom ddanfôn pedwar o'n harbenigwyr tanau gwyllt i Wlad Groeg i helpu a chynorthwyo wrth ymladd y tanau gwyllt a brofodd y wlad yn ystod Haf 2021
- Parhawyd i gefnogi ein cydweithwyr yn GIG Cymru a WAST yn ystod y pandemig – gan yrru ambiwlansys, gweithio mewn canolfannau brechu cymunedol a hyfforddi diffoddwyr tân mewn gweinyddu brechlynnau.

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Gweithio gyda Chwarae Teg, elusen sy'n ysbrydoli, arwain a darparu cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, i gefnogi'r adolygiadau AD rydym yn cynnal, gan gynnwys ein gweithgarwch recriwtio
- Sicrhau cytundeb ar y cyd â'n cyrff cynrychioliadol i gyflawni treial o system amserlennu hyblyg ddiwygiedig ar gyfer gorsafoedd tân ac achub
- Parhau i gefnogi'r CAS (Cynllun Awdurdod Sylfaenol) cyfredol, wrth weithio mewn partneriaeth â busnesau i sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth ddarparu cyngor diogelwch tân a gweithgarwch rheoleiddio, ac archwilio opsiynau ar gyfer partneriaethau newydd
- Archwilio partneriaethau newydd a ffyrdd arloesol o gydweithio â grwpiau tai cymdeithasol





15

Defnyddio Technoleg yn Dda

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Cymru gydnerth



Cymru iachach

Beth yw ystyr hyn?

Byddwn yn adolygu ein defnydd o dechnoleg yn rheolaidd fel bydd y caledwedd a'r meddalwedd fwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio i helpu eich cadw'n ddiogel. Tra bod technoleg yn parhau i ddatblygu ar gyflymder, ein ffocws bob tro yw defnyddio'r dechnoleg orau i gofnodi a monitro galwadau brys, er mwyn danfon yr offer a'r criwiau priodol atoch, a'n helpu ni ar safle lleoliadau'r digwyddiadau brys eu hunain. Agwedd bwysig iawn arall i ni yw adeiladu hydwythdedd i'n systemau fel bod trefniadau cadarn wrth gefn ar waith pe bai systemau'n methu.



Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi

Byddwn yn defnyddio technoleg yn dda wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Parhau â'n hachrediad i Cyber Essentials Plus, a pharhau ag archwiliad llawn i reoli asedau corfforol TGCh
- Parhau â'r prosiect ailadrodd System Leoli Fyd-eang (GPS), a gwblhawyd mewn 42 o orsafoedd (mae ailadroddwyr GPS yn galluogi derbyn signalau lloeren y tu mewn i adeilad neu mewn lleoliad dan do lle na ellir eu derbyn fel arfer)
- Treialu'r defnydd o apiau i gefnogi ein criwiau wrth fynychu digwyddiadau
- Cyflwyno ap i'r staff cyfan, i rannu gwybodaeth allweddol a'r newyddion diweddaraf





Chwilio'n
barhaus i
ddefnyddio'r
dechnoleg
ddiweddaraf
er mwyn
gwella ein
gwasanaeth
i chi

- Datblygu a dechrau treial i ddiffoddwyr tân ddefnyddio camerâu a wisgir ar y corff mewn amgylcheddau hyfforddi
- Uwchraddio ein system rheoli fflyd gan alluogi adrodd gwell
- Cwblhau uwchraddio i'n Terfynellau Data Symudol (MDTs), sydd wedi bod o fudd i'n criwiau drwy ddarparu meddalwedd a gwasanaethau mapio mwy cyfredol
- Cychwyn prosiect trawsadrannol i fabwysiadu systemau cwmwl
- Creu a gweithredu teclyn adrodd i olrhain a monitro ein cynnydd a thystiolaethu yn erbyn argymhellion a chynllun gweithredu Buddsoddwyr mewn Pobl
- Creu systemau adrodd i gefnogi gweithgorau a phrosiectau, gan gynnwys y Gweithgorau Diogelu a Rheilffyrdd

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Cychwyn prosiect system rheoli ar gyfer cofnodi a dysgu datblygiad personol, i sicrhau bod pecynnau e-ddysgu yn cydymffurfio â deddfwriaeth, y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a pholisi'r Gwasanaeth (i'w cwblhau yn gynnar yn 2023)
- Eithafu'r defnydd o offer geo-ofodol i helpu adnabod lleoliad y galwr
- Mudo i Microsoft Office 365, gan gynnwys defnyddio meddalwedd Microsoft Office Teams ar gyfer cyfarfodydd rhithwir
- Lansio ein Stiwdio Cyfryngau newydd fel y gallwn greu a chyflwyno cynnwys aml-gyfrwng o ansawdd uwch yn gyflymach i sianeli digidol



Ymgysylltu a Chyfathrebu

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnherth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru sy'n
fwy cyfartal

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn gwneud yn siwr bod ein holl gymunedau a'n staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth cymunedol rhagorol, drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'n staff a'n dinasyddion i helpu llunio ein gweithgareddau nawr ac yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn ceisio cael mwy o farn ar sut rydym yn rhannu gwybodaeth gyda chi.



Sicrhau
bod ein holl
gymunedau
a staff yn cael
eu cynnwys
wrth ein helpu
i ddarparu
gwasanaeth
rhagorol

Byddwn ni'n ymgysylltu a chyfathrebu wrth:

- Gynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael llais yn yr hyn a wnawn
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Datblygwyd cydberthnasau agos â rhanddeiliaid allanol a mewnol, cynghorau lleol, grwpiau lleiafrifol a sefydliadau LHDTG+, a oedd yn cefnogi'n gweithgarwch ymgynghori cyhoeddus
- Cyhoeddwyd ein Cynllun Gwella Blynyddol yn Hydref a chynhaliwyd arolwg o'n staff, y cyhoedd a'n partneriaid i asesu'u barn ar ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Cyflwynwyd negeseuon diogelwch tân hanfodol i ysgolion ledled De Cymru, gan ymgysylltu â dros 30,000 o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 a 2





Sicrhau
bod ein holl
gymunedau
a staff yn cael
eu cynnwys
wrth ein helpu
i ddarparu
gwasanaeth
rhagorol

- Cynyddwyd y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan orsafoedd tân ac achub i ddarparu cyngor am ddiogelwch a digwyddiadau ac ymarferion hyfforddi i godi ymwybyddiaeth i'n cymunedau
- Ehangwyd ein defnydd o ddulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol. Mae ymgyrchoedd lleihau risg diweddar yn cynnwys defnyddio hysbysfyrddau, faniau hysbysebu, cylchgronau tra lleol, bwletinâu partner, papurau newydd cenedlaethol a hysbysebion radio
- Datblygwyd strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu gydgysylltiedig ar gyfer recriwtio, gan ddefnyddio digwyddiadau a dargedwyd, y cyfryngau cymdeithasol, sylw yn y wasg, nodweddion gwefan a hysbysfyrddau i hyrwyddo rôl diffoddwyr tân Ar Alwad a'r System Ddyletswydd Gyflawn yn ystod ein hymgyrchoedd recriwtio diweddar
- Lansio "Ymrwymo i fod yn Heini" ac ail-lansio diwrnodau ymgysylltu "Ffitrwydd Diffoddwyr Tân"
- Ymgysylltwyd wyneb yn wyneb â phobl ifanc sy'n agored i niwed ar draws De Cymru i ddarparu ein rhaglenni Troseddau a Chanlyniadau a Ffenics sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd ar fin troseddu
- Cyflwynwyd Criw Hanfodol i dros 8,000 o blant - digwyddiad hwyliog a deniadol sy'n darparu gwybodaeth ac addysg diogelwch allweddol
- Mae ein tudalen LinkedIn ar Ddiogelwch Tân i Fusnesau wedi gwella cyfathrebu â'r gymuned fusnes
- Ailddechreuwyd darparu ein rhaglen Cadetiaid Tân wyneb yn wyneb ym Medi 2021. Mae'r rhaglen hon yn galluogi pobl ifanc i astudio ar gyfer cymhwyster BTEC Lefel 2 dwy flynedd o hyd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned





Sicrhau
bod ein holl
gymunedau
a staff yn cael
eu cynnwys
wrth ein helpu
i ddarparu
gwasanaeth
rhagorol

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Ailsefydlu Prosiect Momentwm - cynllun sy'n cynnwys y teulu cyfan ac sydd wedi'i gynllunio i helpu meithrin hyder a chaniatáu i deuluoedd wneud ffrindiau newydd a dysgu pethau newydd. Mae'r gweithgareddau i rieni'n cynnwys hunanofal, meddwlgarwch a lles tra bod pobl ifanc yn dysgu sgiliau diffodd tân a'r ddisgyblaeth a ddisgwylir ar yr iard ymarfer
- Ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn annog ystod fwy amrywiol o bobl i ymgeisio am swyddi i ymuno â'n Gwasanaeth
- Dychwelyd i gynnal digwyddiadau yn yr orsaf wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu lleddfu, i hyrwyddo pynciau Lleihau Risg a gwella cydberthnasau â phartneriaid a chymunedau lleol
- Cynnal ymwybyddiaeth effeithiol o ddigwyddiadau cymunedol effaith uchel
- Parhau i dreialu amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â'n cymunedau
- Datblygu cyngor ac arweiniad Diogelwch Tân i Fusnesau ymhellach ar ein gwefan
- Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Parhau i gefnogi newid diwylliannol wrth hyrwyddo mentrau a datrysiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth annog ymwneud a chyfranogiad staff





Gwerthfawrogi ein Pobl

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n
fwy cyfartal



Cymru
iachach



Cymru
lewyrchus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu

Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi ein pobl fel yr ased mwyaf pwysig wrth gyflawni ein hamcanion. Drwy law ein pobl y darperir gwasanaeth cymunedol ardderchog. I lwyddo, mae angen y bobl gywir gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Bydd ein harweinwyr yn hyrwyddo ein diwylliant, yn byw yn unol â'n gwerthoedd ac yn hwyluso gweithlu uchel ei berfformiad sy'n dalentog, yn fedrus, yn amrywiol ac yn awyddus. Byddwn yn datblygu dull pellgyrhaeddol o wella llesiant gweithwyr i ostwng absenoldeb drwy salwch a chanolbwytio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd. P'un ai'n weithiwr neu'n wirfoddolwr i'r Gwasanaeth, mae gan bawb rôl allweddol wrth gadw'n cymunedau'n ddiogel.



Cynnal
gweithlu
amrywiol sy'n
cynrychioli eich
cymuned, a
hyfforddwyd
yn dda ac sy'n
ymroddedig
i gyflawni ein
gwasanaeth

Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl wrth:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Ddatblygu ein pobl gan adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Gefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a'n hapus yn y gwaith
- Darparu ar argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth (Newydd ar gyfer 2022-2023)

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Proseswyd 400 o geisiadau ar gyfer yr Ystafell Cyd-rheoli Tân, gyda 18 ohonynt i'w cyflogi yn ystod diwedd 2021 hyd at 2022
- Proseswyd tua 2,500 o geisiadau ar gyfer diffoddwyr tân y System Dyletswydd Gyflawn (SDdG), gan gyflogi 98 o ddiffoddwyr tân yn ystod y cyfnod canol 2021-2022, 10% ohonynt yn ddiffoddwyr tân benywaidd
- Crëwyd 'Llyfryn Gyrfaoedd' hollgynhwysol i amlygu'r ystod o gyfleoedd swyddi o fewn ein Gwasanaeth



Cynnal
gweithlu
amrywiol sy'n
cynrychioli
eich
cymuned, a
hyfforddwyd
yn dda
ac sy'n
ymroddedig
i gyflawni ein
gwasanaeth

- Cynhyrchwyd llyfryn diwedd cwrs i wella trosglwyddiad ein diffoddwyr Tân dan hyfforddiant i ddyletswyddau gweithredol
- Parhawyd i ddarparu pecynnau profi llif unffordd (LFT) ar gyfer staff gweithredol i alluogi profi rheolaidd a darparu profion llif unffordd i'r holl weithwyr o fis Ebrill 2021 ymlaen
- Cyflwynwyd hyfforddiant lles i swyddogion iau gweithredol ar draws y Gwasanaeth
- Sefydlwyd ein Grŵp Cyflawni Llesiant a datblygwyd ein Polisi Llesiant
- Paratowyd y ffordd ar gyfer mynediad at gampfa yn y safleoedd rydym yn eu rhannu â gwasanaethau brys eraill
- Sefydlwyd Gweithgor Iechyd Meddwl i adolygu tueddiadau a darparu cyfle i gydweithwyr sydd â phrofiad byw i'n helpu i lunio ein darpariaeth i'r dyfodol
- Cynhwyswyd iechyd meddwl fel testun hyfforddi ar gyfer holl recriwtiaid newydd y SDdG
- Cyflwynwyd 20 o Swyddogion Cymorth i Deuluoedd a'u hyfforddi ynghylch sut i ddarparu cymorth uniongyrchol i deulu sydd wedi dioddef profedigaeth
- Lansiodd y broses Adolygiad Personol newydd
- Enillwyd y Wobr Aur yn dilyn ein Gwobr Arian flaenorol yn asesiad Pobl Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) a Gwobr Arian yn ein hasesiad ffurfiol cyntaf yng ngwobr Llesiant BmP
- Cymerwyd rhan yn rhaglen Academi Cymru "Arwain mewn Gwlad Ddwieithog" sy'n anelu at greu diwylliant lle gall dwyieithrwydd ffynnu
- Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Monitro Blyneddol am y Gymraeg o'r 1af o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021. Gallwch ddarllen yr adroddiad hwn [YMA](#)





Cynnal
gweithlu
amrywiol sy'n
cynrychioli
eich
cymuned, a
hyfforddwyd
yn dda
ac sy'n
ymroddedig
i gyflawni ein
gwasanaeth

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Cyflwyno dysgu cyn-gwrs i holl recriwtiaid Ar Alwad erbyn diwedd 2022
- Cwmpasu a chynnal adolygiad o drefniadau Ar Alwad
- Datblygu a lansio ein Llwybrau Dysgu newydd i wella datblygiad staff ymhellach
- Gweithredu'r portffolio datblygu newydd a Sicrwydd Ansawdd Mewnol (SAM) yn ein hadran Diogelwch Tân i Fusnesau, fydd yn mapio'r llwybr ar gyfer newydd-ddyfodiaid o'r cyfnod sefydlu hyd at gymhwyso
- Datblygu a chyflwyno pecyn hyfforddi ar gyfer y Camerâu Delweddu Thermol newydd
- Lansio cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer niwroamrywiaeth a myfyrio personol
- Datblygu pecyn hyfforddi i reolwyr llinell ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Canolbwyntio ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl i holl Staff Ar Alwad a Chorfforaethol
- Cynyddu nifer yr Hyrwyddwyr MIND/Iechyd Meddwl o fewn y Gwasanaeth
- Ehangu datblygiad ardaloedd llesiant a gerddi cymunedol ein gorsafoedd a safleoedd eraill
- Cytuno i ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig
- Parhau i fod yn rhan o "Gymuned Ymarfer" a gynhelir gan Academi Cymru i rannu syniadau ac arferion gorau ar gyfer gweithredu diwylliant dwyieithog o fewn y gweithle
- Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol 2021-2024 [YMA](#)





Diogelu ein Hamgylchedd

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang



Cymru
iachach



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn cyflawni ein gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu cynnal y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Cynnal ein
gweithgareddau
mewn modd
fydd yn helpu
i gynnal y
ddaeir ar gyfer
genhedloedd y
dyfodol

Byddwn yn diogelu ein hamgylchedd wrth:

- Ostwng y defnydd o ddeunyddiau defnydd sengl
- Gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan
- Ostwng ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd
- Leihau maint y gwastraff a gynhyrchir (Newydd yn 2022-2023)

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Gosodwyd mesuryddion clyfar yn y rhan fwyaf o'n hadeiladau
- Erbyn hyn mae gan 90% o orsafoedd tân ac achub ac adeiladau eraill oleuadau LED cwbl weithredol a goleuadau a reolir yn ganolog
- Arwyddwyd nifer o Siarteri Teithio lach ar draws De Cymru. Mae'r siarteri hyn yn ymrwmo i ystod o gamau gweithredu i annog a chefnogi mwy o deithio llesol ar gyfer busnes a hamdden, e.e. beicio a cherdded, gan ein staff, gan gyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau cerbydau
- Disodlwyd 21 o gerbydau injan disel â cherbydau trydan, cyflwynwyd tair fan drydan, a gosodwyd pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd yn ein Pencadlys





Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu i gynnal y ddaear ar gyfer genhedloedd y dyfodol

- Mae hyfforddiant peiriannau arbenigol bellach wedi'i leoli mewn gorsafoedd i leihau symud y peiriannau hyn yn ystod cyrsiau hyfforddi
- Mae hyfforddiant Gweithredol a Diogelwch Cymunedol wedi'i ddarparu mewn gorsafoedd tân ac achub gan ddefnyddio gweminarau a dulliau rhithwir eraill
- Ymchwiliwyd i ymarferoldeb casglu dŵr glaw i'w ddefnyddio yn ein hadran Fflyd a Pheirianeg ar gyfer ein cyfleuster golchi cerbydau

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Cynyddu nifer y mannau gwefru cerbydau trydan yn y Pencadlys a'n gorsafoedd tân ac achub
- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd ffurfiol
- Gweithredu a defnyddio traciwr ôl troed carbon allanol
- Rhoi mwy o ystyriaeth i ffyrdd o leihau symudiadau cerbydau, a'n defnydd o ddeunyddiau untro a deunyddiau na ellir eu hailgylchu i gyflawni yn erbyn ein Cynllun Lleihau Carbon
- Treialu compostio pryfed genwair fel dewis amgen i gasgliadau gwastraff bwyd mewn tair gorsaf dân ac achub Ar Alwad
- Sicrhau cyllid i brynu dwy fan drydan fawr arall
- Symud ymlaen â gosod paneli solar yn y Pencadlys a Gorsaf Dân ac Achub y Barri a cheisio cwblhau gosodiadau pellach ar draws y Gwasanaeth yn y dyfodol
- Cyflwyno monitro meintiau argraffu i leihau'r defnydd o bapur
- Cyflwyno technoleg sychu newydd ym mhob gorsaf tân ac achub. Mae'r dechnoleg hon yn sensitif i sychder a bydd yn "cau'n awtomatig" unwaith bydd deunyddiau wedi'u sychu, gan arbed ynni a chostau

Gallwch weld ein Cynllun Lleihau Carbon [YMA](#).



Parhau i Weithio'n Effeithiol

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
lewyrchus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru
iachach

Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn gwbl atebol i'r cyhoedd wrth sicrhau bydd ein cymunedau'n deall y risgiau o fewn eu hardal. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd o'r hyn rydym yn gyfrifol am ddarparu drwy law trefniadau partner a sut rydym yn cynllunio i wneud hyn. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhoi'r cyfle i ddinasyddion ddeall ein hamcanion a hefyd yn rhoi cyfle i gyfrannu at y cynllun hwn wrth gynnig adborth. Bydd ein Cynllun(iau) Gwella Blyneddol yn hysbysu'r cyhoedd o'n llwyddiant wrth gyflawni'r amcanion hyn a chwmpas cynnydd pellach. Bydd pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy ac am hyd y cynllun hwn. Byddwn yn chwilio cyfleoedd posib i adnabod arbedion effeithlonrwydd a chadw costau i lawr, wrth gyflawni ein dyletswyddau craidd yn effeithiol. Ein nod yw eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth. Wrth i'r Gwasanaeth symud o ymateb i bandemig Covid-19 i gyfnod o adferiad, byddwn yn sicrhau bod y ffyrdd newydd a gwell o weithio, a ddatblygwyd yn ystod yr argyfwng, yn cael eu hymgorffori'n llwyddiannus yn ein gweithredu bob dydd.



Sicrhau
bod ein
Gwasanaeth
yn rhoi
gwerth am
arian ac yn
amlwg yn
atebol

Byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol wrth:

- Fod yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Ddatblygu ffyrdd newydd o weithio

Beth wnaethom yn 2021-2022

- Cyhoeddwyd ein Cynllun Gwella Blyneddol yn Hydref 2021
- Adroddwyd i'n Hawdurdod Tân ac Achub (ATA) ac amryfal is-bwyllgorau, megis y Pwyllgor AD a Chydraddoldeb a'r Pwyllgor Cyllid a Rheoli Perfformiad. Mae dogfennau ATA ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a gellir eu canfod [YMA](#)



Sicrhau
bod ein
Gwasanaeth
yn rhoi
gwerth am
arian ac yn
amlwg yn
atebol

- Mae recordiadau fideo o'r cyfarfodydd pwyllgor hyn ar gael ar ein gwefan. Mae dolen i'r rhain i'w canfod [YMA](#)
- Datblygwyd Asesiadau Effaith Caffael – a ddefnyddir yn y cam cyn caffael i asesu sut mae unrhyw bryniant arfaethedig yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau lleihau carbon
- Ymatebwyd i dros 90 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gwnaethpwyd y rhain ar gael ar ein gwefan
- Cynhaliwyd cadwyn gyflenwi caffael effeithiol ar ôl Brexit
- Gweithiwyd gyda gorsafoedd tân ac achub i hyrwyddo ymarferion hyfforddi a'u canlyniadau, a darparwyd negeseuon diogelwch yn y cartref, diogelwch busnes a diogelwch ar y ffyrdd

Beth fyddwn yn gwneud yn 2022-2023

- Adolygu a monitro ein cofnodion gwastraff yn rheolaidd
- Cynnal tua 70 diwrnod o archwiliad mewnol ar ddeuddeg maes pwnc gwahanol, e.e. AD, Cyllid a Diogelu Data, i ddarparu asesiad o sicrwydd a chydymffurfiaeth
- Gweithredu argymhellion Adolygiad yr Ystafell Cyd-reoli Tân (CRT) sy'n mynd i'r afael â swyddi parhaol, amodau gwaith, strwythur, dychwelyd a materion amgylcheddol
- Datblygu pecyn Taiith Covid-19 i gefnogi dysgu i'r dyfodol a thystiolaeth ymchwiliad cyhoeddus
- Cynnal prosiect adnewyddu mân offer, gan dreialu dillad gwaith cenhedlaeth nesaf arloesol ar gyfer tywydd gwlyb, llifiau cilyddol ac offer GTFf a weithredir gan fatris
- Cynnal asesiadau swm a dirgrynu ar draws y Gwasanaeth





Sicrhau
bod ein
Gwasanaeth
yn rhoi
gwerth am
arian ac yn
amlwg yn
atebol

- Ymchwilio i uwchraddio ein system cyllid a chaffael
- Ail-beiriannu cyrsiau i eithafu presenoldeb ymgeiswyr ac arbedion effeithlonrwydd wrth symud hyfforddiant damcaniaethol i hyfforddiant ar-lein dan arweiniad hyfforddwr
- Uwchraddio ein cyfleuster ChAT (Chwilio ac Achub Trefol)
- Datblygu deunydd ychwanegol i gefnogi ein hymgyrchoedd recriwtio
- Hyrwyddo ein cynllun Arloesi a Gwella, gan annog syniadau ac awgrymiadau gan unrhyw aelod o staff





**Gweithia gyda fi,
nid yn fy erbyn.**

Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Rydym yn parhau i weithio gyda'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn ein hardal. Mae gan Fyrrddau Gwasanaeth Cyhoeddus gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar bob adeg, byddwn yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut allwn fod yn aelodau effeithiol o'r naw BGC, yn cydweithredu a chymryd agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGC yn dangos ein hymrwymiad at egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD. Pan wnaethom ddatblygu themâu ac amcanion strategol, fe wnaethom ystyried saith nod y Ddeddf a sicrhau ein bod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio: meddwl hirdymor, atal, cyfannu, cydweithredu a chynnwys. Fe wnaethom adnabod amryw gamau sy'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod wrth ddiffinio ein wyth thema ac amcan strategol ar gyfer 2020-2021 a thu hwnt.

Byddwn yn monitro a mesur ein cynnydd tuag at yr amcanion hyn fel rhan o'n prosesau cyfredol.

Ffurfiwyd BGC Gwent yn 2021, gan amnewid pump BGC awdurdodau lleol i Dde Ddwyrain Cymru. Cynhyrchwyd un Asesiad Llesiant Gwent gydag awdurdodau lleol i bob ardal. Bydd hyn yn hysbysu'r Cynllun Llesiant Gwent o 2023. Bydd Cynlluniau Llesiant a gynhyrchwyd gan bob awdurdod lleol ar gyfer 2018-2023 yn parhau hyd ddiwedd eu bywydau.

Cliciwch ar yr eicon perthnasol i weld cynllun ac amcanion y BGC ar gyfer eich ardal.



Amdanom Ni



10

o Awdurdodau
Lleol



1,100

o filltiroedd sgwâr



tua

670,000

o aelwydydd



dros

1.5

miliwn o bobl



yn cynnwys

828

diffoddwr tân Llawn Amser



565

diffoddwr tân Ar Alwad



347

Staff Corfforaethol



41

Staff Ystafell Rheoli





Mewn cysylltiad â thua

35,000

o adeiladau busnes



Yn 2020-2021, fe wnaethom ni:



Achos Covid-19, mae ffigurau ymgysylltu yn is nag arfer.

* Cynhaliwyd 2,660 o wiriadau diogelwch cartref ychwanegol dros y ffôn.

Dangosyddion Perfformiad Strategol

	Blwyddyn Ariannol 17-18	Blwyddyn Ariannol 18-19	Blwyddyn Ariannol 19-20	Blwyddyn Ariannol 20-21	Blwyddyn Ariannol 21-22*	Tuedd 4 Blynedd	Targed Blwyddyn Ariannol 22-23
Tanau a fynychwyd	5,793	6,898	5,482	5,481	5,068		5,601
Galwadau ffug a fynychwyd	7,687	7,847	7,858	8,324	7,965		8,114
Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd	1,139	1,112	995	643	810		870
Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd	2,624	2,062	2,569	2,275	2,603		2,467
Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o holl danau	67	71	84	49	46		59
Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol	58	55	64	42	38		47
Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd o fewn yr ystafell lle y'u tarddwyd	83.65%	82.50%	84.20%	82.23%	83.92%		85.00%


* Mae'r data yn gywir ar y 18fed o Fawrth 2022 – nid yw'r rhain yn ffigurau blwyddyn gyfan ac yn destun newid

Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y tanau a fynychwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan dân. Mae nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychwyd hefyd wedi gostwng - yn adlewyrchu patrymau teithio newidiol yn ystod Covid-19. Mae tuedd gynyddol ar i fyny mewn galwadau gwasanaeth arbennig eraill, sy'n cynnwys cynorthwyo asiantaethau eraill, ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd ac achub o ddŵr, yn dangos ystod y gefnogaeth a ddarparwn i'n cymunedau a'r gofynion newidiol ar y Gwasanaeth.




Ein Cyllideb 2022-2023

Derbyniwyd y rhan fwyaf o'n cyllid gan yr awdurdodau lleol rydym yn gwasanaethu: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Mae hyn yn seiliedig ar boblogaeth pob ardal. Dyma ein gwariant cyllideb arfaethedig:



Costau Gweithwyr

Dosberthir costau gweithwyr, sef £52,341,575 ar draws ein holl staff fel y dangosir isod



*Mae **Costau Staff Eraill** yn cynnwys goramser, teithio a chostau eraill sy'n ymwneud â staff.

Pam Rydym yn Cynllunio

Rydym bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i chi yn ogystal â rheoli risgiau trwy weithio mewn partneriaeth a'n gweithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb. Yn ystod ein cylch cynllunio blynyddol, rydym yn cynnal diwrnodau cynllunio gyda'n Uwch Dîm Rheoli i ystyried yr holl risgiau sy'n ymwneud â Thân ac Achub a all effeithio ar gymunedau De Cymru er mwyn pennu ffyrdd y gallwn weithio'n effeithiol i atal y risgiau hyn rhag niweidio'r rhai hynny o fewn ein cymunedau.

Rydym hefyd yn ystyried ein cyllidebau a'r cyfreithiau sy'n effeithio arnom, i wneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ein gwaith yn y manau cywir. Yna, byddwn yn datblygu cynlluniau manylach ar gyfer pob blwyddyn, a daw'r rhain yn amcanion i ni. Rydym yn ymgynghori â'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid cyn cwblhau ein hamcanion.

Rhennir ein hamcanion yn dasgau cynllun busnes ac rydym yn darparu adroddiadau rheolaidd ar ein cynnydd yn erbyn y tasgau hyn i'n Hawdurdod Tân ac Achub.

Cyhoeddir papurau'r Awdurdod Tân ac Achub ar ein gwefan a gellir eu cyrchu [YMA](#)


Ymgynghori a Chynnwys

Bob blwyddyn rydym yn cynnal arolwg o'n staff, y cyhoedd a'n partneriaid i asesu'u cytundeb a'u barn am ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Eleni, cynhaliwyd ein harolwg o'r Iaf o Dachwedd 2021 tan y 24ain o Ionawr 2022.

Y canlyniadau allweddol oedd:

- Mae cytundeb cryf â'n hamcanion arfaethedig ar gyfer 2022-2023 gyda 86% o'r ymatebion yn cytuno
- Daeth y lefelau uchaf o gytundeb ar gyfer yr Amcanion arfaethedig fel a ganlyn – 'Diogelu ein Hamgylchedd', 'Gweithio gyda'n Partneriaid' a 'Parhau i Weithio'n Effeithiol'

- Roedd y gyfradd ymgysylltu â'r arolwg ymgynghori cyhoeddus 27% yn uwch na'r llynedd, gyda 220 yn dechrau ar yr ymgynghoriad a dderbyniwyd eleni o'i gymharu â 161 y llynedd
- Mae 72% o'r rhai y gwnaethom ymgysylltu â nhw (158 o bobl) yn gweithio i GTADC ac mae'r 28% sy'n weddill yn gweithio i bartneriaid, grwpiau rhanddeiliaid eraill, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n dymuno peidio â nodi eu cysylltiad â GTADC
- Dynododd 157 o bobl p'un ai oedden nhw'n cytuno â'n hamcanion ai peidio – mwy na dwbl ymatebion y llynedd gan 70 o bobl.



Sut Rydym yn Cynllunio


Mae'r diagramau isod yn dangos sut mae hyn oll yn cyd-fynd â'i gilydd fel fframwaith o fewn y Gwasanaeth.

Ein Proses Gynllunio



Deddfwriaeth Allweddol

Mae'r diagram hwn yn dangos y ddeddfwriaeth allweddol yr ydym yn ei hystyried wrth gynllunio a'r cysylltiadau rhyngddynt.



Ein Cynlluniau a'n Strategaethau Eraill

Mae ein Gwasanaeth wedi datblygu strategaethau a chynlluniau eraill sy'n cefnogi cyflawni ein Cynllun Strategol cyffredinol.




Cewch ganfod ein Cynllun Strategol 2020-2030 [YMA.](#)



Cewch ganfod ein Cynllun Gwella Blynnyddol 2022-2023 [YMA.](#)



Cewch ganfod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025 [YMA](#)



Cewch ganfod ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 [YMA.](#)



Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym ar yr **31ain o Fawrth 2021** ac mae'n allweddol i gefnogi'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed o fewn ein cymdeithas.

Nod y ddyletswydd yw sicrhau canlyniadau gwell i'r sawl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd yn annog gwell penderfyniadau ymhlith sefydliadau cyrff cyhoeddus rhestredig, gan sicrhau canlyniadau mwy cyfartal.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu'r sawl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus sy'n gorfod ufuddhau i'r ddyletswydd, mae angen inni ystyried sut gall ein penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cynnwys ein cymunedau wrth wneud penderfyniadau yn allweddol i wneud penderfyniadau'n gywir a gwneud yn siŵr bod y penderfyniadau hynny'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Byddwn yn ystyried tystiolaeth ac effaith bosib, yn deall barn ac anghenion y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad a chroesawu her a chraffu.

Enghreifftiau o ble rydym wedi ystyried y ddyletswydd newydd hon yw:

- Cynlluniwyd a lansiwyd Asesiad Integredig i ystyried nodweddion gwarchodedig a ffactorau economaidd-gymdeithasol ym mhob un o'n gweithgareddau
- Gweithiodd ein tîm Caffael law yn llaw â GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru i ymgorffori cymalau Gwerth Cymdeithasol yn ein prosesau tendro, ac fe wnaethom ddatblygu Asesiadau Effaith Caffael hefyd
- Fe wnaethom ystyried ein trefniadau i ddefnyddio cadwyni caffael a chyflenwi i gefnogi newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Mae hwb adnoddau ymgysylltu GTADC yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn rhoi mynediad i'n cofrestr Rhanddeiliaid a Phartneriaethau, gan amlygu ein cysylltiadau â'n partneriaethau gwaith gyda llawer o grwpiau, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'n Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.



- Mae Adnoddau Dynol yn ystyried egwyddorion allweddol y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd a'u heffaith ar weithgareddau recriwtio. Cynhyrchwyd adroddiad i werthuso'r ymgyrch ddiwethaf ar gyfer recriwtio i'r Ddyletswydd Gyflawn, sydd wedi ein helpu i yrru gweithgareddau ymlaen ar gyfer ymgyrch 2022.



Lleihau Carbon

Nod ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 yw lleihau ein hallyriadau carbon o 25%. Dros y tri degawd nesaf, erbyn 2050 ein nod yw cyflawni gostyngiad ychwanegol o 55%.

Sut byddwn yn mesur ein llwyddiant?

- Bydd allyriadau carbon yn lleihau – gan gyrraedd neu ragori ar ein targedau
- Bydd ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynyddu - gan gyrraedd neu ragori ar ein targedau
- Bydd addasiadau hanfodol a mesurau eraill yn cael eu gweithredu
- Ychydig iawn o effaith amgylcheddol a fydd gan ddatblygiadau, offer a chyflenwadau cynlluniedig newydd



Bioamrywiaeth ar Waith

Mae syniad ar y gweill i ddatblygu gardd yng Ngorsaf Dân ac Achub Maesteg wedi tyfu i fod yn rhywbeth mwy. Wrth ddefnyddio llawer iawn o ddeunyddiau crai a phren a roddwyd gan y gymuned a busnesau lleol, mae personél yr orsaf wedi adeiladu cynefinoedd adar. Gwahoddodd staff y gymuned leol i helpu gwneud blychau adar i'w gerddi eu hunain neu eu gosod mewn coetir lleol. Cynhaliwyd "Diwrnod Gweithdy Agored Gorsaf Dân Maesteg" ar y 4ydd o Ragfyr 2021. Gwnaethpwyd chwe deg o focsys adar ynghyd â bwydydd adar 'Bom Braster'. Cymerodd holl aelodau'r Wylfa Werdd a diffoddwyr tân Ar Alwad ran ynghyd â rhai o'n gwirfoddolwyr a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a Heddlu De Cymru. Aethpwyd â'r cyhoedd ar daith fach o gwmpas yr ardd a chawsant wybod pam fod ardaloedd bach fel hyn mor bwysig i'r ecosystem ehangach. Roedd


personél yr orsaf yn gallu dangos cymaint yr oedd natur a bywyd gwyllt wedi ymgartrefu yn yr amgylchedd newydd hwn. Gellir defnyddio'r ardd ei hun fel ardal hamdden i gael hoe fach, eistedd i lawr, bod ym myd natur a phrosesu meddyliau mewn ychydig funudau o heddwch.

Nid yw'r prosiect hwn wedi derbyn unrhyw arian na chymorth ariannol gan fod pob eitem wedi'u rhoi neu'u hailgylchu. Dyma wir werth cynaliadwyedd hirdymor.

Mae Gorsaf Dân ac Achub Pencoed hefyd wedi bod yn brysur yn gweithio ar ardd bywyd gwyllt newydd ac ardal les. Hyd yn hyn, maent wedi adeiladu dau wely uchel o drawstiau rheilffordd ac wedi plannu dros 100 o goed. Mae mwy o ardaloedd lles yn cael eu cynllunio ar gyfer gorsafoedd eraill yn y misoedd nesaf.

Cewch ganfod ein Cynllun Lleihau Carbon [yma](#).





Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg 2015, y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi Cyflwyno Hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cyhoeddir yr [Hysbysiad Cydymffurfio](#) hwn ar ein gwefan a rhoddir manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr er mwyn gwella safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.

Lleisiwch eich barn

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd ystyrlon o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Fersiynau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fersiwn arall, [cysylltwch â ni](#).



Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX



Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

Cysylltwch â Ni

www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni



Galwch ni

01443 232000



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk